## Ein Proses

Mae gennym **fis calendr llawn** o dderbyn cais sydd **wedi'i gwblhau'n llawn** er mwyn rhyddhau'r cofnodion i chi. Byddwch yn derbyn e-bost neu lythyr i gydnabod y cais pan fydd y broses hon wedi cychwyn.

Gofynnir i Archif Cymru Gyfan y GIG am y cofnodion. Nid ydym yn cadw copi caled o'r cofnod yn ein swyddfa.

Byddwch yn cael copïau o'r cofnod trwy e-bost diogel (fel copi wedi'i sganio) neu Special Delivery.

Os hoffech gasglu'r copi o'r cofnod yn bersonol, bydd ein hadran mewn cysylltiad â chi i drefnu amser a dyddiad priodol sydd hefyd yn gyfleus i chi.

Os nad ydych bellach wedi'ch cofrestru gyda meddyg teulu, bydd y broses hon yn eich galluogi i gael mynediad i'ch cofnodion meddyg teulu. Os oes angen cofnodion ysbyty arnoch, bydd angen i chi gysylltu â'r ysbyty y derbynioch driniaeth ynddo yn uniongyrchol.

Os ydych wedi'ch cofrestru â phractis meddyg teulu ar hyn o bryd, bydd angen i chi ofyn i'ch practis cyfredol am eich cofnod gan nad oes gennym y cofnod hwn na chyfrifoldeb drosto chwaith.

Gan nad ydym wedi derbyn hyfforddiant meddygol, ni allwn dynnu gwybodaeth feddygol benodol o gofnod. Gallwn ddewis cofnod rhannol neu lawn i chi y gallwch ei nodi yn eich cais

GIG CYMRU NHS WALES
Partneriaeth Cydwasanaethau
Gwasanaethau Gofal Sylfaenol
Shared Services Partnership
Primary Care Services

Anfonwch eich cais wedi'i gwblhau a chopïau o ddogfennau cysylltiedig at:

**Adran Mynediad at Gofnodion Iechyd**
**Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru**
**Tŷ Cwmbrân**
**Ystad Parc Mamhilad**
**Pont-y-pŵl**
**NP4 0XS**

**nwssp_primarycareservices@wales.nhs.uk**

**At sylw'r Adran Mynediad at Gofnodion Iechyd**

**01495 300730**

Mae'r Gwasanaethau Gofal Sylfaenol yn is-adran o fewn Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru

Mae Gwasanaethau Gofal Sylfaenol a Phartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru yn croesawu gohebiaeth yn y Gymraeg a Saesneg.

Primary Care Services is a division of the NHS Wales Shared Services Partnership

Primary Care Services and NHS Wales Shared Services Partnership welcome correspondence in Welsh and English.

GIG CYMRU NHS WALES
Partneriaeth Cydwasanaethau
Gwasanaethau Gofal Sylfaenol
Shared Services Partnership
Primary Care Services

# Taflen Wybodaeth Mynediad at Gofnod Iechyd

**Rheolau o dan y Ddeddfwriaeth Diogelu Data**

## Gwirio Pwy Ydych Chi

**Fel rhan o'ch cais, bydd angen copïau o'r dogfennau canlynol arnom:**

**Un dull adnabod personol ffotograffig – *e.e.) Pasbort cyfredol a dilys, trwydded yrru gyda ffotograff gyfredol a dilys***

**Os na allwch ddarparu unrhyw un o'r uchod, rhaid darparu'r canlynol;**

**Un dull adnabod personol nad yw'n ffotograff – *e.e.) Tystysgrif geni, trwydded yrru bapur ac ati.***

**AC**

**Un ddogfen yn cadarnhau eich cyfeiriad cyfredol – *e.e.) Bil cyfleustodau neu gyfriflen banc a gyhoeddwyd o fewn y 6 mis diwethaf i gadarnhau eich cyfeiriad***

**AC**

**Llun maint pasbort, wedi'i ardystio ar y cefn gyda llofnod 'person uchel ei statws' – *e.e.) Ynad, Ymarferydd Meddygol, Swyddog y lluoedd arfog, Athro, Cyfreithiwr, Gwas Sifil.***

**Caiff yr wybodaeth a roddir i PCGC ei thrin yn gwbl gyfrinachol a chaiff ei storio'n ddiogel ar bob adeg.**

## Cael mynediad at gofnod ar ran aelod o'r teulu

Os ydych chi'n gwneud cais am gofnodion ar gyfer plant o dan 16 oed, bydd angen i chi ddarparu copïau o ddogfennau i brofi'ch perthynas.

Os ydych chi'n gwneud cais am gofnodion ar gyfer plant dros 16 oed, efallai y bydd angen sicrhau eu cysyniad neu gallant wneud cais eu hunain.

Os ydych chi'n gwneud cais am gofnodion ar gyfer aelod o'r teulu, bydd angen i chi ddarparu prawf o berthynas, unrhyw hawl gyfreithiol benodol i gynrychiolaeth a phrawf o unrhyw newid enw fel rhan o'ch cais – *e.e.)Tystysgrifau Priodas, Tystysgrifau Geni ac ati.*

Rhaid nodi'ch rhesymau/caniatâd dros ofyn am fynediad o'r fath yn eich cais a rhaid darparu tystiolaeth ategol.

Ni allwn brosesu'ch cais nes ein bod wedi derbyn y ddogfennaeth berthnasol sy'n cadarnhau eich perthynas a/neu pwy ydych chi.

Bydd y tîm Ceisiadau am Gofnodion Iechyd yn ystyried pob cais yn ôl teilyngdod ac yn darparu'r wybodaeth sy'n ofynnol lle bo hynny'n bosibl.

## Ceisiadau Cyfreithwyr

Mae gan gyfreithwyr sy'n gweithredu ar ran cleient/perthynas agosaf hawl i ofyn am gofnod meddygol claf os gallant ddarparu'r holl wybodaeth ofynnol gan gynnwys cydsyniad wedi'i lofnodi a'i ddyddio - rhaid i'r cydsyniad fod o fewn y 12 mis diwethaf.

Gall y ceisiadau hyn gymryd hyd at **fis calendr llawn** ac fe'u hanfonir trwy e-bost diogel i'r cyfeiriad e-bost a ddarperir gan y cwmni cyfreithwyr.

Bydd y fersiwn electronig o'r cofnod rydych chi wedi gofyn amdani ar gael ar ein systemau am uchafswm o **90 diwrnod calendr** ar ôl i'r broses gael ei chwblhau. Os bydd angen y cofnod hwn arnoch eto ar ôl yr amser hwn, bydd angen i chi gyflwyno cais newydd, a all gymryd hyd at **fis calendr llawn** i'w brosesu o dan ddeddfwriaeth bresennol

Anfonir yr holl wybodaeth a gedwir yn ein cofnodion wedi'u harchifo atoch, a gall rhywfaint ohoni fod yn niweidiol neu'n ofidus i'w darllen.

*Os hoffech gael unrhyw wybodaeth ychwanegol, peidiwch ag oedi cyn cysylltu â ni gan ddefnyddio'r manylion cyswllt yn y daflen hon.*